YSGOL Gyfun Aberaeron Comprehensive School

YSGOL Gyfun Aberaeron Comprehensive School

Crynodeb o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae ein cwricwlwm wedi'i gyd-lunio drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a bydd yn bodloni'r gofynion canlynol:

Ein gweledigaeth

Ein nod yn Ysgol Gyfun Aberaeron yw adlewyrchu ein harwyddair sef Gorau Ymgais Gwybodaeth a'i bwriad i gynnig yr ansawdd uchaf o ddysgu ac addysgu a fydd yn arfogi'r disgyblion ar gyfer bywyd yn eu cymuned leol, cenedlaethol a'r byd ehangach. Rydym am gynorthwyo'r disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial, i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer byd gwaith yr unfed ganrif ar hugain ac i dyfu i fod yn aelodau cyfrifol o'r gymdeithas.

Mae'r ysgol yn rhwymedig i sicrhau mynediad cyfartal i gyfleoedd addysgol o safon uchel ar gyfer pob disgybl a'u galluogi i gyrraedd eu potensial llawn. Trefnir y cwricwlwm yn Ysgol Gyfun Aberaeron er mwyn hybu datblygiad deallusol, moesol, personol, cymdeithasol, ieithyddol a chorfforol y disgyblion.

Amcanion

Mae cwricwlwm Ysgol Gyfun Aberaeron yn:

- Gytbwys - Yn hyrwyddo datblygiad deallusol, moesol, ysbrydol, creadigol, emosiynol a chorfforol
- Gydlynol - Yn gwneud cysylltiadau penodol rhwng y gwahanol unedau gwaith y deuir ar eu traws
- Ddilynol - Yn canolbwyntio ar ddilyniant trwy rediad gwybodaeth gofalus; yn darparu eglurder am sut i wella yn y pynciau
- Briodol - Lefel her yn cyfateb i lefel aeddfedrwydd a gwybodaeth gyfredol y disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar roi her briodol i'r disgyblion
- Ganolbwyntiedig - Yn ceisio cadw'r cwricwlwm yn hylaw trwy ddysgu'r wybodaeth bwysicaf; cyflwyno'r sgiliau, syniadau mawr a chysyniadau allweddol o fewn pynciau
- Berthnasol - Yn ceisio cysylltu deilliannau'r cwricwlwm a darparu cyfleoedd ar gyfer disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus

Y pedwar diben

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer cynllun cwricwlwm ein hysgol. Nod ein hysgol yw cefnogi pob dysgwr i ddod yn:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd cyfoethog a phrofiadau dysgu dilys i ddatblygu'r cysyniadau, yr wybodaeth a'r sgiliau allweddol fel y'u disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh)

Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r 6 MDaPh o:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dyniaethau
- Mathemateg a Rhifedd
- Iechyd a Lles

Ein cwricwlwm cynhwysol

Bydd ein cwricwlwm yn codi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael cymorth i wireddu uchelgeisiau a dyheadau'r pedwar diben, ac i symud ymlaen. Yr ydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a MATh a sut y byddwn yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Dysgu, Dilyniant ac Asesu
Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu drwy gynllunio cyfleoedd dysgu sy'n defnyddio'r egwyddorion addysgeg.
Mae ein cwricwlwm, a gefnogir gan ddysgu ac addysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon yn unol â'u gallu. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau ac fe'i hysbysir gan yr egwyddorion cynnydd. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein dull o asesu, a'i diben yw llywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu'n cyson yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu. Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu wrth fynd i mewn i'r ysgol er mwyn cael darlun clir o'u cyrhaeddiad.

Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd
Fel ysgol ddwyieithog bydd y dysgu ac addysgu yn digwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau cyfleoedd pwrpasol I ddatblygu'r medrau yn y ddwy iaith tu fewn ac allan o'r dosbarth. Bydd disgylbion yn cael profiad I ddatblygu sgiliau amlieithrwydd trwy astudio ieithoedd tramor fodern.

Sgiliau trawsgwricwlaidd
Bydd ein cwricwlwm yn datblygu'r medrau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn ac i'w hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad.
Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:
- ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn
- fod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

Hawliau Dynol CCUHP / CCUHPA
Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'r Confensiwn Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ymhlith y rhai sy'n darparu dysgu ac addysgu.

Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
Bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer ein holl ddysgwyr er mwyn cyfoethogi eu profiadau ymellach.

Addysg cyd-berthynas a rhywioldeb (ACRh)
Mae ein cwricwlwm ysgol yn cwmpasu'r canllawiau ACRh a'r Cod ACRh manodol. Bydd gan ein darpariaeth ACRh rôl gadarnhaol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o'u cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ddull ysgol gyfan. Sylfaen ACRh yw helpu ein dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd. Mae'r cydberthnasau hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg
Mae Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion mandadol Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr 11 i 16 oed.
Nid oes hawl gan rieni i ofyn i blentyn gael ei dynnu'n ôl o Ganllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghwricwlwm Cymru.
Mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

Adolygu a mireinio
Bydd Cwricwlwm ein hysgol yn cael ei adolygu'n gyson er mwyn ymateb i ymchwiliad proffesiynol, anghenion newidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cwricwlwm yn gynhwysol ac yn ymatebol, gan ddiwallu anghenion pob dysgwr. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid a byddant yn cael eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

Polisi Cwricwlwm YGA:
Polisi MATh YGA:
Polisi ADY YGA:

YSGOL Gyfun Aberaeron Comprehensive School

YSGOL Gyfun Aberaeron Comprehensive School

Summary of the Curriculum for Wales

Our curriculum has been co-designed through engagement with all stakeholders and will satisfy the following requirements:

Our Vision

Our aim at Ysgol Gyfun Aberaeron is to reflect our motto, namely Knowledge is the Best Endeavor, and our intention of offering learning and teaching of the highest quality which will prepare pupils for life in their local and national community and in the wider world. We want to assist pupils to reach their full potential, to develop the skills and knowledge necessary in the twenty-first century work-place and to become responsible members of society.

The school is obliged to ensure equal access to high quality educational opportunities for all pupils and enable them to reach their full potential. The curriculum at Ysgol Gyfun Aberaeron is organised to promote the intellectual, moral, personal, social, linguistic and physical development of the pupils.

Our Aims

Ysgol Gyfun Aberaeron's curriculum is:

- Balanced - Promotes intellectual, moral, spiritual, creative, emotional and physical development;
- Coherent - Makes specific connections between the different work units encountered;
- Continuous - Focuses on progression through a careful flow of knowledge; provides clarity about how to improve in subjects;
- Appropriate - Level of challenge corresponds to the level of maturity and current knowledge of pupils. The curriculum is inclusive and focuses on giving pupils an appropriate challenge;
- Focused - Seeks to maintain a manageable curriculum by teaching the most important knowledge; presents the skills, big ideas and key concepts within subjects;
- Relevant - Seeks to link curriculum outcomes and provides opportunities for pupils to make informed choices.

The four objectives

The four objectives are the starting point and aspiration for our school's curriculum plan. Our school aims to support all learners to become:

- ambitious and capable learners, ready to learn throughout their lives;
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work;
- ethical, informed citizens of Wales and the world;
- healthy and confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valuable members of society

Mission Statements

Our curriculum will provide rich opportunities and authentic learning experiences to develop the concepts, knowledge and key skills as described in the mission statements and in accordance with the mission statements.

Iben

Our curriculum will provide learning experiences through six areas of learning and experience:

- Languages, Literacy and Communication
- Expressive Arts
- Science and Technology
- Humanities
- Mathematics and Numeracy
- Health and Well-being

Our inclusive curriculum

Our curriculum will raise the aspirations of all learners. As a school we have considered how all learners will be supported to realise the ambitions and aspirations of the four objectives and to move forward. We have considered our ALN and MAT provision and how we will meet the needs of different groups of learners.

Learning, Progress and Assessment

Our curriculum will support learning by planning learning opportunities that use pedagogical principles.

Our curriculum, supported by effective learning and teaching, enables learners to make meaningful progress in accordance with their ability. Over time our learners will develop and improve their skills and knowledge. Our curriculum focuses on understanding what it means to progress in a particular field or discipline and how learners should deepen and broaden their knowledge and understanding, their skills and abilities, their qualities and inclinations, and is informed by the principles of progress. This in turn supports our method of assessment, the object of which is to guide the work of planning for future learning. Continuous assessment will be an integral part of learning and teaching. All learners will be assessed on entry to the school in order to create a clear picture of their attainment**,**

Bilingualism and Multilingualism

As a bilingual school, learning and teaching will be in Welsh and English, ensuring suitable opportunities to develop skills in both languages inside and outside the classroom. Pupils will have the experience of developing multilingual skills by studying modern foreign languages.

Cross-curricular skills

Our curriculum will develop cross-curricular skills – literacy, numeracy and digital competence. Our curriculum will enable learners to develop competence and ability in these skills and to extend and apply them across all Learning and Experience Areas. Learners will have opportunities across the curriculum to:

- develop listening, reading, speaking and writing skills
- use numbers and solve problems in real life situations
- be confident users of a range of technologies to help them act and communicate effectively and make sense of the world

Human rights UNCRC / CRPD

Our school will promote knowledge and understanding of Part 1 of the United Nations Convention on the Rights of the Child, and the United Convention on the Rights of Persons with Disabilities, among those who provide learning and teaching.

Careers education and experiences related to work

Our curriculum will incorporate careers and work-related experiences for all our learners to further enrich their experiences.

Relationships and sexuality education (RSE)

Our school curriculum covers the RSE guidelines and the mandatory RSE code. Our RSE provision will have a positive role in the education of our learners and will play a pivotal role in supporting them to realise the four objectives as part of a whole school approach. The basis of RSE is to help our learners form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect. These relationships are essential to the development of emotional well-being, resilience and empathy.

Guidance on Religion, Values and Ethics

Guidance on Religion, Values and Ethics is one of the mandatory requirements of the Curriculum for Wales and is compulsory for all learners aged 11 to 16. Parents do not have the right to request that a child be withdrawn from Guidelines on Religion, Values and Ethics in the Curriculum for Wales. The agreed syllabus sets out what should be taught in Guidance on Religion, Values and Ethics within the local authority and our curriculum will reflect these guidelines.

Review and refinement

Our school's curriculum will be constantly reviewed in order to respond to professional inspection, the changing needs of learners and social contexts and needs. This will ensure that our curriculum is inclusive and responsive, meeting the needs of all learners. The reviews will take into account the views of stakeholders and will be approved by the governing body. We will publish a summary of our curriculum and review the summary if changes are made to the curriculum during the review process.

Polisi Cwricwlwm YGA:
Polisi MATh YGA:
Polisi ADY YGA: